y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 4 | DYDD GWENER, IONAWR 22, 2010 | Pris 40c

PRYSURDEB YN EALING GREEN, LLUNDAIN

Ar fore Sul yr 22ain o Dachwedd, cawsom rhaglen o 'Ganu Mawr' i godi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol. Mr. Huw Evans oedd yn arwain a Mr. Henry Owen yn organydd, a bu'r plant yn cyfrannu trwy ganu. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa a llwyddwyd i godi £400 i'r elusen. Gobeithiwn drefnu i gael rhywbeth tebyg ar gyfer y Pasg.

Mr. Huw Evans, Arweinydd y canu

Cymerwyd mantais gan Gapel Seion, Ealing Green o gynllun Cronfa Illtud ac archebu llyfrau Cristnogol yn rhodd i Ysgol Gymraeg Llundain. Ar ddydd Mercher yr 2il o Ragfyr 2009, ymwelodd Siw Harston (blaenor) a Dr. Mair Beetham (athrawes Ysgol Sul) â'r ysgol i gyflwyno'r llyfrau lliwgar a phwrpasol, a chael croeso a diolch gan yr athrawon a'r plant. Mae nifer o'r plant yn ffyddlon i'r Ysgol Sul ac wedi mwynhau paratoi ar gyfer y Nadolig.

***Siw Harston** (blaenor).*

HAELIONI PLANT TUDWEILIOG

Bu plant Ysgol Sul Tudweiliog ym Mhen Llŷn yn cynnal eu oedfa Nadolig fel arfer eleni. Dim ond 13 sydd yna erbyn hyn yn yr Ysgol Sul, rhai yn ifanc iawn ond yn andros o weithgar a brwdfrydig. Gwnaethant eu gwaith yn ardderchog fel bob amser.

Tua mis Tachwedd yn flynyddol mae'r plant yn derbyn blwch Smarties ac ar ôl bwyta'r cynnwys, maent yn mynd ati i lenwi'r blychau efo arian mân. Agorir y blychau a chyfri'r arian tua wythnos cyn yr oedfa Nadolig – a gynhelir ar y nos Sul ddiwethaf cyn yr Ŵyl, ac mae'r plant yn cael dewis i ba elusen neu achos yr aiff yr arain bob blwyddyn.

Maent wedi cefnogi elusennau amrywiol o Hosbis yn y cartref, Ambiwlans Awyr, Ysbytai, i elusennau lleol ond y ffefryn yw cefnogi Cymorth Cristnogol neu Oxfam drwy brynu anifail neu bryd bwyd, neu ddŵr glân i blant a phobl dramor. Mae'r plant yn uniaethu yn fawr efo'r syniad yma ac eleni

casglwyd digon o arian i brynu pâr o eifr, ugain iâr, a dŵr glân ar gyfer 10 o bobl.

Dros y blynyddoedd prynwyd rhagor o eifr a ieir, llo, moch, coed, pwmp dŵr a hyd yn oed gamel efo'r arian.

Hyd yma maent wedi casglu dros £1160 a hynny ond wrth fwyta Smarties a llenwi blychau. Mae'r weithred yma yn un fechan iawn ond gwerthfawr dros ben i eraill ac mae'r plant i'w canmol am feddwl am arall "Yn gymaint a'i wneuthur i un o'r rhai hyn, i mi, y gwnaethoch."

Dyma lun o'r plant yn ymarfer eu drama Nadolig ond mae dau yn absennol oherwydd salwch.

Laura Griffiths.